Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 467 AWST/MEDI 2024 | AM DDIM

## PRIFYSGOL ABERTAWE'N CYFLWYNO DYFARNIAD ER ANRHYDEDD I EICON Y SIN GYMRAEG, HUW CHISWELL

- CATRIN NEWMAN

Mae Prifysgol Abertawe wedi dyfarnu Doethuriaeth mewn Llên er Anrhydedd i Huw Chiswell, gan gydnabod ei yrfa nodedig ym myd cerddoriaeth a'r celfyddydau creadigol, yn ogystal â'i statws eiconig yn niwylliant yr iaith Gymraeg.

Cafodd Huw Chiswell ei eni yng Nghwm Tawe ym 1961 a'i fagu ym mhentref glofaol Godre'r Graig, ac mae wedi dod yn ffigwr adnabyddus yn y diwylliant Cymraeg.

Aeth ei daith addysgol ag ef o Ysgol Gynradd Pant-teg i Ysgol Gyfun Gymraeg Ystalyfera ac, yn y pen draw, i Brifysgol Abertawe lle enillodd radd yn y Gymraeg ym 1982.

Ar ôl graddio, dechreuodd Huw ar yrfa ym myd y teledu gydag HTV yng Nghaerdydd, gan fynd o fod yn ymchwilydd rhaglenni i rôl cyfarwyddwr-gynhyrchydd. Creodd sioeau llwyddiannus yn Saesneg a Chymraeg, gan gynnwys y gyfres a dorrodd dir newydd, Swig, a enillodd BAFTA am Gyfraniad at Adloniant Ysgafn ym 1993, a rhaglenni sgetsys poblogaidd megis Torri Gwynt a Pobol y Chyff.

Roedd gan Huw bresenoldeb nodedig ar y sgrin hefyd, gan gynnwys ei rôl gofiadwy fel Carlos yn y ffilm gwlt Ibiza! Ibiza! gan S4C. Y tu hwnt i fyd y teledu, mae wedi ffynnu fel awdur, cyflwynydd, canwr a chyfansoddwr. Mae ei gynyrchiadau wedi ennill clod rhyngwladol, gan gynnwys gwobr aur yng Ngŵyl Ffilm a Theledu Efrog Newydd.

Yn adnabyddus ledled Cymru yn ôl ei lysenw 'Chiz', mae enw Huw Chiswell yn gyfystyr â phop a roc Cymraeg. Ac yntau'n fab i athrawes cerddoriaeth, Caryl, dechreuodd ei daith gerddorol yn y bandiau Y Crach a'r Trwynau Coch. Bu troad allweddol yn ei yrfa pan enillodd ei gân Y Cwm gystadleuaeth Cân i Gymru ym 1984, gan arwain at gontract recordio a rhyddhau chwe albwm.

Y flwyddyn ddilynol, cyfansoddodd Dwylo dros y Môr ar gyfer ymgyrch elusen Band Aid Bob Geldof er mwyn codi arian at gymorth ar gyfer y newyn yn Ethiopia. Hon oedd y gân Gymraeg gyntaf i gyrraedd siart senglau'r DU.



Mae apêl eang gan gerddoriaeth Huw, sy'n archwilio themâu o ddirywiad diwydiannol i frwydrau cymunedol ac mae'n cynnwys dylanwadau o jazz i roc. Mae ei ganu emosiynol a'i alawon cofiadwy wedi gwneud ei ganeuon yn fythol boblogaidd ymhlith cynulleidfaoedd Cymraeg.

Yn 2022, perfformiodd disgyblion hen ysgol Huw, Ysgol Gyfun Ystalyfera, sioe yn seiliedig ar ei fywyd a'i ganeuon yn theatr newydd sbon yr ysgol, Theatr Chiswell a enwyd er teyrnged iddo ef a'i fam ddiweddar, Caryl.

Yn dilyn cyfnod llwyddiannus fel Comisiynydd Adloniant Ysgafn yn S4C, mae Huw wedi parhau i ragori fel cynhyrchydd dramâu annibynnol. Ei brosiect diweddaraf, Dal y Mellt (Rough Cut) oedd y gyfres ddrama Gymraeg gyntaf i gael ei phrynu gan Netflix ac ers hynny, mae ail gyfres wedi cael ei chomisiynu.

Meddai Huw Chiswell: "Rwyf yn hynod o falch o dderbyn yr anrhydedd hon gan Brifysgol Abertawe, fy alma mater ac ymhellach, prifysgol dinas fy nghynefin. Mae'n golygu llawer i mi. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at fagu perthynas agosach fyth gyda'r sefydliad arbennig hwn a chyfrannu cymaint â phosib at ei ddiwylliant."

Ychwanegodd yr Athro Gwenno Ffrancon, Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol ar gyfer y Gymraeg, ei Threftadaeth a'i Diwylliant a Chyfarwyddwr Academi Hywel Teifi: "Mae'n hyfryd gweld Huw Chiswell yn derbyn yr anrhydedd hon am ei gyfraniad aruthrol i gerddoriaeth a'r diwydiannau creadigol Cymraeg. Mae Cwm Tawe yn gwbl greiddiol i hunaniaeth Huw Chiswell, ac yntau wedi'i naddu o'r graig honno y canodd mor fendigedig iddi ac felly mae'n gwbl addas bod ei Brifysgol leol a hefyd ei alma mater, Prifysgol Abertawe, yn cydnabod ei ddoniau a'i waith yn y modd hwn."

# ADDYSG OEDOLION CYMRU YN CHWILIO AM DIWTORIAID DWYIEITHOG NEWYDD YN ABERTAWE

-ALEX LLOYD

Mae Addysg Oedolion Cymru, y sefydliad cenedlaethol dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru, yn chwilio am diwtoriaid dwyieithog newydd i ymuno gyda'n tîm yn Abertawe a'r cyffiniau.

Fel sefydliad, rydym wedi ymrwymo'n llwyr i chwarae rhan weithredol er mwyn cyflawni Cymraeg 2050. Cefnogwn gynlluniau Llywodraeth Cymru i weld nifer y bobl sy'n gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg i gyrraedd miliwn erbyn 2050. Er mwyn rhoi cymorth i ni gyrraedd y nod yma, rydym angen eich cefnogaeth.

Mae arnom angen tiwtoriaid sy'n frwd dros addysgu, sy'n gallu ysbrydoli eraill ac yn gyfforddus i gyflwyno dosbarthiadau i oedolion drwy gyfrwng y Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog. Mae'r pynciau a addysgir yn dibynnu ar eich sgiliau a'ch cymwysterau. Cynigiwn ystod eang o gyrsiau, o Rifedd i Hanes, Crefftau i Sgiliau Digidol. Os ydych yn diwtor sy'n siarad Cymraeg gyda maes pwnc arbenigol, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

Os oes gennych ddiddordeb ac yr hoffech dderbyn mwy o wybodaeth, cysylltwch gyda'n Pencampwr Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog sef James Berry drwy anfon e-bost i James.berry@addysgoedolion.cymru. Bydd James yn hapus i drafod y cyfleoedd posibl yn fanylach gyda chi.

I gael mwy o wybodaeth am Addysg Oedolion Cymru, ewch i'n gwefan yn addysgoedolion.cymru



Addysg Oedolion Cymru
Adult Learning Wales

'Y Sefydliad cenedlaethol dysgu oedolion yn y gymuned i Gymru'

**addysgoedolion.cymru | @alwcymru**

## MARW DEWI PWS
-HEINI GRUFFUDD

Hynod drist i bobl Abertawe yw clywed am farwolaeth Dewi Pws - Dewi Gray Morris o Dreboeth. Roedd Dewi'n un o ddisgyblion cynnar Ysgol Gymraeg Lôn-las, ac roedd yn un o gymeriadau lliwgar Aelwyd yr Urdd, Treforys. Er iddo symud i Dre-saith, ac yna i Nefyn, roedd e bob amser yn ymwybodol o'i gefndir Cymraeg yn Abertawe.
Gweld Cymru Gymraeg oedd ei ddelfryd, a llwyddodd i fyw ei fywyd yn unol â'r ddelfryd honno, gan wneud y Gymraeg yn fwynhad i bawb o'i gwmpas.

Wnaeth Dewi ddim heneiddio. Medd rhywun iddo aros yn blentyn trwy'i oes, a dywedodd Dewi y byddai'n tyfu i fod yn 12 oed ar ôl gorffen bod yn fardd plant. Byddai ei asbri naturiol yn goleuo lle bynnag yr âi.

Cafodd yrfa hir o ganu ac actio. Roedd yn un o gast gwreiddiol Pobol y Cwm, yn chwarae rhan Wayne Harris o 1974 tan 1987, ac yna yn un o gast gwreiddiol Rownd a Rownd o 1995 i 2007. Cymerodd ran mewn nifer o ffilmiau a rhaglenni teledu, gan gynnwys ei raglenni ei hun, a hefyd mewn dramâu a phantomeimiau.

Roedd yn Fardd Plant Cymru yn 2010, a daeth yn aelod o'r Orsedd yn yr un flwyddyn, gyda'r enw barddol 'Dewi'n y Niwl'.
Cafodd radd er anrhydedd gan Brifysgol Abertawe yn 2018.

Cychwynnodd yn athro, ond dewisodd yrfa annibynnol iddo'i hun yn ganwr ac actor. Fe oedd prif leisydd y grwp Y Tebot Piws, ac yna daeth yn aelod o'r grwp Edward H Dafis. Cyfansoddodd nifer o ganeuon poblogaidd, gan gynnwys Lleucu Llwyd a Nwy yn y Nen, a enillodd Cân i Gymru yn 1971. Mae un o'i ganeuon yn sôn am Gelliwastad, a chanodd yn ffraeth am Abertawe'n mynd ar ei nerfe.

Bydd pawb oedd yn ei nabod yn gwybod yn dda am ei ddawn i dynnu coes. Byddai bathodyn Merched y Wawr ar ei gap - o bosib er cof am ei fam, a oedd yn un o gymeriadau Treboeth. Mae storiau di-ri am anturiaethau, a chroeso i ddarllenwyr Wilia nodi rhai ohonyn nhw.



Llun: Dewi yn diddanu gyda phlant yn Eisteddfod Boduan, 2023.

## CÔR CEFNOGWYR Y GWEILCH
-HEINI GRUFFUDD

Mae'r côr hwn yn Abertawe wedi blodeuo ers cystadleuaeth deledu rhwng corau cefnogwyr clybiau rygbi Cymru.
Yr arwenydd yw Christopher Williams a'r cyfeilydd yw Berian Lewis.
Buon nhw'n canu ynyr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd.
Tristwch yr achlysur oedd y bu farw un o'i aelodau, Mair Roberts, yn annhymig, yn ystod yr wythnos cyn cystadlu. Canwyd mewn teyrnged iddi hi. Ei gwr, Ian, yw trysorydd y côr.



## CROESO I'R GORSEDDWYR NEWYDD
-HEINI GRUFFUDD

Cafodd John Thomas y bargyfreithiwr o Abertawe a Catrin Rowlands, sy'n byw yn San Tomos, ac sy'n bennaeth y Gymraeg yn Ysgol Llanhari, eu derbyn i'r orsedd ar fore Gwener yr Eisteddfod.
Mae'r ddau wedi bod yn amlwg iawn gyda Thŷ Tawe. Yn y dyddiau cynnar cododd John filoedd i'r gronfa sefydlu. Catrin yw cadeirydd pwyllgor Tŷ Tawe yn awr.
Dyma nhw'n cael eu croesawu i'r orsedd gan Helen Gibbon a John Evans, cyn arweinydd a chyfeilydd Côr Tŷ Tawe.



# BRYN TAWE'N DATHLU UGAIN

HEINI GRUFFUDD

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe'n dathlu ugain mlwyddiant ei sefydlu. Agorwyd yr ysgol ym mis Medi 2003, a chafodd noson ddathlu ei chynnal yn stadiwm abertawe.com, gyda nifer fawr o rai cysylltiedig â'r ysgol yn dwyn atgofion am yr ugain mlynedd cyntaf.

Sefydlwyd yr ysgol ryw 8 mlynedd ar ôl i'r syniad gael ei godi gyntaf. Ym mis Rhagfyr 1995, cafodd RhAG gyfarfod gyda chyfarwyddwr addysg Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, fel yr oedd y pryd hwnnw a dadlau bod angen ail ysgol gyfun Gymraeg yn y sir "erbyn diwedd y ganrif".

Roedd Ysgol Gyfun Gŵyr yn cynyddu'n gyson, ac roedd yn amlwg y byddai ei niferoedd yn codi'n uwch na'r 750 o leoedd oedd yn yr ysgol. Ar y pryd doedd y Sir ddim wedi caniatáu addysg 16+ i Ysgol Gŵyr, a chafodd hyn ei darparu mewn cydweithrediad â Choleg Gorseinon.

## YMATEB YN ARAF

Er bod yr angen am ddatblygiadau'n amlwg, araf iawn roedd y Sir yn ymateb. Erbyn 1997 roedd 1647 o blant yn ysgolion cynradd Cymraeg y sir, ac roedd y glir y byddai'r rhan fwyaf o'r rhain am drosglwyddo i ysgol gyfun Gymraeg.

Ceisiodd y Sir rwystro pethau. Ym mis Mawrth 1998 gwnaethon nhw ymdrech i ddileu cludiant bws i rai oedd erbyn hynny'n mynychu cyrsiau 16+ yn Ysgol Gŵyr.

Ym mis Ionawr 1999 cyflwynodd RhAG gynllun datblygu addysg Gymraeg i'r Sir, a galw am 5 ysgol gynradd newydd i Abertawe, ail ysgol uwchradd Gymraeg a chydnabod addysg 16+ gyflawn yn ysgol Gŵyr.

Cafwyd ymateb ym Mehefin 1999, pan awgrymodd y Sir y gellid cael ysgol gynradd Gymraeg yn hen ysgol Sgeti, pan fyddai ysgol Saesneg Sgeti'n symud i Lwynderw. Galwodd RhAG am sefydlu ysgol Gymraeg yn Llwynderw, a chyflwynodd Dr Neville Daniel, pennaeth Ysgol Gŵyr, gynllun i ehangu ei ysgol.

Bu cyfarfod yn Nhachwedd 1999 gan Fwrdd yr Iaith, yn neuadd y dref, yn cefnogi datblygu addysg 16+ Gymraeg a chafwyd cefnogaeth hefyd i gynlluniau RhAG yn Abertawe.

## RICHARD PARRY'N CYNNIG AIL YSGOL

Daeth Richard Parry yn gyfarwyddwr addysg Abertawe, ac ym mis Rhagfyr 1999 argymhellodd sefydlu ail ysgol gyfun Gymraeg a sefydlu ysgol gynradd newydd yn nalgylch ysgol Bryn-y-môr.

Fodd bynnag, yn nhraddodiad cynghorwyr Abertawe'r cyfnod o wrthwynebu datblygiad rhesymegol ysgolion Cymraeg, argymhellodd y Sir bod Ysgol Gŵyr yn symud i safle Penlan neu Fynydd-bach, pan fyddai'r ddwy ysgol honno'n uno, yn ôl pob tebyg yn ysgol Penlan, a symud Ysgol Gymraeg Tirdeunaw i rannu safle ysgol Saesneg Clwyd.

Erbyn Tachwedd 2000 parhaodd y Sir gyda'r cynllun i uno ysgolion Penlan a Mynydd-bach ar safle Penlan, yn y gobaith y byddai Ysgol Gŵyr yn symud i'r safle gwag. Roedd ymgynghori ar hyn i ddigwydd ym mis Rhagfyr. Cynigiodd RhAG, pe bai Gŵyr yn symud i'r safle gwag, y dylid cadw safle Ysgol Gŵyr ar gyfer yr ail ysgol gyfun Gymraeg.

## GWRTHWYNEBU SYMUD GWYR I BENLAN

Ym mis Mawrth 2001 cafwyd cyfarfodydd gan rieni yn Ysgol Gŵyr ac Ysgol Gymraeg Lôn-las yn gwrthwynebu symud Ysgol Gŵyr i Benlan. Cynhaliodd y Sir gyfarfodydd ymgynghori yn Ysgol Gŵyr, Mai 16, 2001 ac yna yn y Brangwyn, Mai 17, a mynychodd cannoedd o rieni i wrthwynebu cynllun y Sir. Protestiodd rhieni yng nghyfarfod y Cyngor sir.

Fel rhan o'r ymgynghori, ysgrifennodd rhieni 500 o lythyrau'n gwrthwynebu, a chafwyd 5 deiseb a 1,200 o lofnodion. Anfonodd RhAG eto at bob cynghorwr yn gwrthwynebu'r cynllun. Yn ddiddorol cafwyd 4 llythyr gan drigolion Tregwyr, a 322 o lofnodion ar ddeiseb, yn dymuno bod Ysgol Gŵyr yn symud i Benlan.

Erbyn Mehefin 2001 roedd 1000 o ddisgyblion yn Ysgol Gŵyr a lle i 750. Ym mis Hydref 2001, a'r diffyg lle yng Ngŵyr yn mynd yn argyfyngus, cynigiodd y Sir dri opsiwn: i. Symud Ysgol Gŵyr i Benlan; ii. Cadw blynyddoedd 7 ac 8 yng Ngŵyr a rhoi blynyddoedd 9-13 ym Mhenlan; iii. Sefydlu ysgol 11-18 oed ym Mhenlan a chadw Gŵyr yn ysgol 11-16 oed. Anfonwyd y dewis hwn i bob rhiant.

## RHIENI'N ENNILL

Pwysodd y rhieni'n gryf yn erbyn y dewisiadau hyn, a hawlio sefydlu ysgol gyfun Gymraeg newydd. O'r diwedd, gwrandawodd y Sir. Ym mis Ionawr 2002 trefnodd y Sir gyfarfod i rieni ym Mhenlan, gan gytuno ar gael dwy ysgol 11-18 oed yn Abertawe, gyda'r nod o agor yr ysgol newydd ym Mhenlan erbyn Medi 2003. Bydden nhw'n gwario £1.25 miliwn ar wella Ysgol Gŵyr, a £2 filiwn ar drwsio Penlan ac yna £3 miliwn ar wella'r adeilad. Cafwyd cyfnod ymgynghori ym mis Chwefror 2002, ac ym mis Mai 2002 cafwyd cymeradwyaeth i'r cynllun gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Sefydlwyd corff llywodraethu cychwynnol, a fu'n gyfrifol am benodi Mr David Williams, Llandeilo, yr oedd ganddo brofiad o ddysgu yn Abertawe, yn bennaeth, ac yna benodi rhai o'r staff cyntaf. Cychwynnodd yr ysgol gyda blwyddyn un, ac yn tyfodd i'w llawn dwf, a'r rhifau heddiw'n dal i gynyddu.

## GRŴP DYSGU CWM IVY'N MYND O NERTH I NERTH
## -DAFYDD WILLIAMS

Mae grwpiau dysgu Cymraeg yn britho'r tir yn Abertawe a Gwyr y dyddiau hyn - ac yn ddiweddar daeth grŵp sy'n cwrdd bob wythnos yng Nghwm Ivy at ei gilydd am sesiwn coffi a chanu a dathlu pen-blwydd un o'r aelodau.

Arweinir y grŵp gan Rob Evans a bydd yn cyfarfod yng Nghaffi Cwm Ivy bob bore Dydd Iau am 11am tan yr hydref. Yna pan fo'r caffi'n cau am y gaeaf bydd y grŵp yn parhau yn Siop y Bobl, Llanmadog.

Mae croeso cynnes i ddysgwyr ac i Gymry Cymraeg sy'n fodlon treulio awr bob hyn a hyn yn sgwrsio mewn un o'r mannau mwyaf prydferth i'w gael yn unman.



Llun: Ken a Karen yn arwain y canu yng Nghwm Ivy

## DATHLU PRIODAS DDIEMWNT - DAVID GWYN A PAM AM GAEL CWMNI AELODAU AELWYD TREFORYS

Yn gynnar yn y chwedegau tan ganol saithdegau'r ganrif ddiwethaf roedd Aelwyd y Tabernacl, Treforus yn un o Aelwydydd prysuraf Cymru. Tan arweiniad David Gwyn a Pamela John roedd yr Aelwyd yn cystadlu'n gyson yn Eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol ac yn cyflwyno Nosweithiau Llawen ar draws y De.

Teithiwyd i'r Alban yn 1968 ac 1970 gan gynnal cyngherddau yn ardal Perth.

Eleni, ym mis Awst, mae David Gwyn a Pam yn dathlu eu Priodas Ddiamwnt,ac yn awyddus i ddathlu yng nghwmni cyn aelodau o'r Aelwyd ac, wrth gwrs , eu partneriaid.Clwb Golff Langland yw'r lleoliad ar brynhawn Sadwrn Medi 21ain rhwng 3 a 6 o.g. Darperir lluniaeth o 4.00.y.p ymlaen.

Mae'r trefniadau yng ngofal David Morgans ( 01792 424581/ 07739467494 neu davidsmorgans@ntlworld.com. Fe fydd David yn falch o dderbyn enwau'r sawl sy'n gallu derbyn y gwahoddiad erbyn Medi 17ed.

Dywedodd David Gwyn, " Mae Pam a minnau yn edrych ymlaen at gyfarfod cymaint ag sy'n bosibl o aelodau " oes aur" yr Aelwyd. Yn bendant, dydyn ni ddim eisiau anrhegion, on fe fydd yn agored i gyfrannu tuag at noddi un o'r cystadlaethau yn Eisteddfod yr Urdd sydd ym Mharc Margam yn 2025. Mae'n amhosibl i ni gysylltu a phawb yn unigol ond 'rwyn siwr fe fydd gair yn " Wilia " yn lledaenu'r neges a'n croeso".



Aelwyd y Tabernacl, Treforys









## YSGOLORIAETH I DRI
## -CYMDEITHAS DDRAMA GYMRAEG ABERTAWE

Mae'n bleser gan Gymdeithas Ddrama Gymraeg Abertawe gyhoeddi canlyniad Ysgoloriaeth y Gymdeithas am 2024.

Mewn blwyddyn o geisiadau uchel iawn eu safon penderfynodd y panel gwobrwyo - Ioan Hefin, Elinor Wyn Reynolds a Lowri Cynan - gynnig ysgoloriaeth yr un i dri ymgeisydd eleni.

Mae'r tri eisoes wedi ennill profiad eang o berfformio, ar lwyfan ac ar sgrîn – yn actio, canu a dawns. Bydd yr ysgoloriaeth hon – £2,500 yr un - yn eu galluogi i adeiladu ar y profiad hwnnw a hybu eu gyrfaoedd ym myd y ddrama.

Daw Ifan Coyle o Gaerdydd ac wedi cwblhau Cwrs Sylfaen Sioe Gerdd a Pherfformio yn Academi Emil Dale, mae ar fin cychwyn ar gwrs BA mewn Actio yng Academi Mountview yn Llundain.

Mae Nansi Adams hefyd yn hannu o Gaerdydd a newydd orffen ei blwyddyn gyntaf, eto yn Mountview, ar gwrs sylfaen gyda dwy flynedd o gwrs BA Actio o'i blaen.

O Flaenau Ffestiniog y daw Harmony Hughes. Wedi llwyddo i ennill BA yn y Celfyddydau –Perfformio a Chynhyrchu yn Academi Llais a Chelfyddydau Dramatig Cymru yng Nghaerdydd, penderfynodd gymryd flwyddyn bwlch a gweithio er mwyn ei galluogi i ddilyn cwrs MA Theatr Gerdd yn...wel ie, Mountview yn Llundain.

Felly trwy gyd-ddigwyddiad llwyr, mae'r tri enillydd eleni yn mynd i astudio yn yr un lle, Academi Mountview, sydd eisoes yn fangre i nifer o Gymry Cymraeg.

Llongyfarchiadau i'r tri oddi wrth Gymdeithas Ddrama Gymraeg Abertawe



Lluniau: Nansi Adams, Ifan Coyle, Harmony Hughes

## ABERTAWE SWREAL

Ym mis Hydref 2024 bydd y mudiad celf a elwir yn Swrealaeth yn dod i Abertawe. Bydd Oriel Volcano, Styd Fawr yn hafan i arddangosfa gyda 28 o gyfranogwyr o naw gwlad. Bydd y mwyafrif yn artistaid o Gymru, rhai ohonynt yn byw dramor a chyfran deg yn dod o Abertawe. Mae James Green o Donypandy yn dysgu ym Mhrifysgol Brydeinig yn Alexandria, yr Aifft; Wynford Vaughan Thomas yn arddangos yn Eglwys Gadeiriol Rochester yng Nghaint; David Greenslade yn ysgrifennu ac yn cyfieithu yn Rwmania. Artisitiaid o wledydd eraill sydd wedi danfon gwaith yn dod o Awstralia, Iwerddon, yr Alban, Wcráin, UDA (Tecsas a Chicago) a'r Weriniaeth Tsiec.


Mae gan Abertawe gysylltiad dilys a hanesyddol â'r mudiad celf a elwir yn Swrealaeth. Mae gan Dylan Thomas gysylltiad arbennig. Roedd Dylan yn arddangosfa enwog New Burlington Galeries ym 1936 lle bu'n crwydro gyda thebot ac yn gweini'r 'te cortyn berw – yn wan neu'n gryf' (y chwedlonol 'boiled string tea').

Yn cael sylw hefyd bydd J H Matthews o Dreforys a ymfudodd o Abertawe i UDA gan ddod yn sylwebydd blaenllaw ar ffilm, llenyddiaeth a chelf swrealaidd Ffrainc. Mae'r arddangosfa hon yn 2024 yn cael ei chynnal i nodi canfed penbwlydd sefydlu Swrrealaeth fel mudiad celf rhyngwladol ym 1924. Bydd yr arddangosfa yn Oriel Volcano, Stryd Fawr, Abertawe o Hydref 8fed i 26ain. Bydd catalog llawn lliw ar gael.









Llun: J H Matthews Treforys ac Efrog Newydd

## PROSIECT DAWNS CYNRADD

-SIENNA LOREY, BLWYDDYN 12

Ym mis Mehefin cefais i'r cyfle i fod yn rhan o'r Prosiect Dawns Cynradd. Tra'n gweithio gydag ysgolion cynradd lleol dwi wedi dysgu cymaint. Gyda CYDC cefais y cyfle i weithio gyda disgyblion blwyddyn 5 Ysgol Blaenymaes a chefnogi a bod wrth eu hochr wrth iddynt berfformio dawns ar lwyfan Theatr Taliesin. Cawsom gwrs dwys dros dridiau i annog y plant i ymhyfrydu yn eu talent fel perfformwyr. Ar ddiwedd y cwrs fe wnaeth y disgyblion arddangos eu gwaith drwy wneud pedair sioe. Roedd y profiad cyfan yn wych ond fy uchafbwynt o'r holl brofiad oedd gweld wynebau'r plant ar ôl gweld balchder eu rhieni. Roeddwn yn ddiolchgar iawn o'r cyfle i dreulio amser yn hyfforddi a dysgu sgiliau newydd i'r plant. Roedd yn waith caled ond yn llwyddiant mawr a oedd wedi cael ei fwynhau gan bawb.

## PERFFORMIO YN LLUNDAIN

ELLA EDWARDS, SIENNA LOREY, ELLA THOMAS BLWYDDYN 12

Ym mis Mehefin cafodd tair o flwyddyn 12 y cyfle i berfformio yng ngwyl Connections dan nawdd National Theatre yn Theatr Dorfman yn Llundain. Cafodd y merched y cyfle yn sgîl gweithdy a ddigwyddodd dros y gwyliau pasg fel rhan o'u cwrs Drama UG. Gyda disgyblion o Ysgol Gyfun Gwyr, chwaraeodd y merched rolau blaenllaw yn y perfformiad o 'Dy enw marw', sef y cynhyrchiad cyntaf heb fod yn y Saesneg i fod yn rhan o'r Ŵyl.
Dyma oedd gan Sienna i'w ddweud, "Roedd y cyfle i berfformio ar lwyfan Theatr Dorfman yn brofiad mor anhygoel! Roeddwn i wrth fy modd yn archwilio cymeriad James, roedd yn heriol ond yn gymaint o wefr. Mae gweithio gyda disgyblion Ysgol Gwyr wedi bod yn gymaint o bleser ac rwyf wedi creu ffrindiau da. Mae'n cymaint o gamp i ni ddweud mai ni oedd wedi perfformio'r ddrama gyntaf nad oedd yn y Saesneg erioed! Mae'r profiad wir wedi bod yn un gwerth chweil."

## TALENTAU CHWARAEON

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Braf oedd clywed am lwyddiant dau o flwyddyn 12 mewn meysydd amrywiol.
Mae Chloe Lewis yn gwneud enw iddi hi ei hun fel talent ym maes karate. Ym mis Medi roedd hi a Niah Williams o fl 10 yn bencampwyr Prydain, ac ym mis Mai roedden nhw'n ail ym Mhencapwriaeth Prydain. Pob dymuniad da i'r ddwy gyda chystadlaethau amrywiol sydd ar y gweill!

Un arall sy'n un i'w wylio ydy Owain James sy'n mentro ym maes triathlon. Ym mis Mai daeth Owain yn gyntaf yn ei grŵp oedran ac yn safle 30 o ran yr holl gystadleuwyr yn Aquathlon y Bae. Yn ddiweddar, daeth yn 19eg yng nghystadleuaeth 'Long Course Weekend' Dinbych y Pysgod ble bu'n rhaid iddo nofio 1.9km, seiclo 70km a rhedeg 10km. Pob lwc i ti Owain gyda chystadlaethau sydd ar y gweill!



Llun chwith: Chloe Lewis
a Niah Williams
Llun isod: Owain James



## CERDDORFA'R 6 SIR

-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Llongyfarchiadau mawr i Isobelle Thomas am fynychu cwrs Cerddorfa'r Chwe Sir yn Aberystwyth ym mis Gorffennaf. Penllawnw'r cwrs oedd perfformiad yn neuadd y Brangwyn ar Orffennaf y 16eg. Gwych Isobelle!



Llun:
Isobelle Thomas

## TRIP YSGOL BRYN TAWE I BARIS

-MALI JONES

Ar ddiwedd y tymor fe ymwelodd ddisgyblion blwyddyn 9 a 10 â phrifddinas Ffrainc am dridiau. Llawn bwrlwm oedd y trip gyda thaith gerdded a chwch o gwmpas Paris i weld y prif atyniadau megis y TOUR EIFFEL, y SACRE COEUR, yr ARC DE TRIOMPHE, y MUSEE D'ORSEE a'r cyfan oll yn naws paratoadau cyffrous LES JEUX OLYMPIQUES! Gwerthfawrogwyd olygfeydd godidog y brifddinas o'r TOUR MONTPARNASSE sef adeilad uchaf Paris. Ymwelwyd hefyd â pharc hamdden ASTERIX lle yr oedd y disgyblion wedi mwynhau yr amryw atyniadau gan gwrdd â chymeriadau y comig enwog. MERCI PARIS!

## GWEITHDY RADIO AM DDIM

Siawns i fod yn greadigol a defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn cynllunio a recordio eich rhaglen radio eich hunan dan arweiniad y cyflwynydd radio lleol, Steffan Crocker! Addas i oedrannau 13-17.
21/09, 2yh-5yh
Tŷ Tawe
AM DDIM!
Archebu trwy menterabertawe.org/archebu




## SIOE HEDD WYN AM DDIM

Sioe newydd gan y cwmni Mewn Cymeriad am y bardd , Hedd Wyn.
21/09, 11yb
Tŷ Tawe
AM DDIM!
Tocynnau: www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe




## TWTS TAWE

Dewch i gael hwyl a chreu ffrindiau newydd!
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau / National Waterfront Museum
Dydd Llun 13:30 - 14:30 yn ystod y tymor ysgol
Oed - 0 - 3
Am Ddim!
Sesiwn nesaf, dydd Llun 9/9




## BORE COFFI LLYS NINI

Cyfle i ymarfer dy Gymraeg a chyfarfod pobl newydd.
Pob ail ddydd Mercher y mis.
11 - 12, Caffi Nini, Llys Nini, Penllergaer
Cyfarfod nesaf - 11/9




Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Awst/Medi.

Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Medi/Hydref erbyn Medi 26ain trwy ebostio Anys at:

**datblygu@menterabertawe.org**

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

## DYDDIADAU I'R DYDDIADUR!

14.09 - Sadwrn Acwstig 2024 (Railway Inn, Cilâ)
21.09 - Ynys + Mojo JNR (Elysium Gallery)
26.09 - Bwncath + Dadleoli (The Bunkhouse)
28.09 - MR (Tŷ Tawe)
17.10 - Das Koolies (The Bunkhouse)
19.10 - Angharad Jenkins + Patrick Rimes (Tŷ Tawe)



















Tocynnau:www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe